Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
The role of arts and culture in addressing poverty and social exclusion / Rôl celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol
CWLC(5) CP03
Ymateb gan Cered / Evidence from Cered

Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i'r Ymgynghoriad:

<u>A ellir defnyddio diwylliant i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru?</u>

1. Pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru wedi bod o ran gwella cyfranogiad a mynediad at ddiwylliant i bobl mewn tlodi?

Yr ydym ym ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r rhaglen 'Cyfuno – Trechu tlodi trwy Ddiwylliant' ac yn gweithio gyda chwech o Awdurdodau Lleol i gyflwyno ffyrdd newydd o leihau rhwystrau a mynediad at sefydliadau diwylliannol ac i greu fframweithiau newydd ar gyfer ymgysylltu.

Nid yw Ceredigion yn rhan o'r rhaglen hwn.

Pe bai Ceredigion yn cael cymorth ariannol, fel rhai o'r Siroedd eraill yng Nghymru, byddwn mewn gwell sefyllfa i sicrhau bod plant a theuluoedd difreintiedig sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn medru cael mynediad at ddiwylliant. Mi all hyn fod naill ai trwy fynychu digwyddiadau / gweithgareddau neu ein bod ni'n medru mynd â'r digwyddiadau / gweithgareddau allan atynt hwy, ar ffurf gwaith allgymorth.

2. Pa mor effeithiol y mae ymdrechion cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru (sef Cyngor y Celfyddydau, yr Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a llywodraeth leol wedi bod i ddefnyddio diwylliant i drechu tlodi?

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig ystod eang o gyfleoedd am ddim i bobl ifanc ac oedolion i gymryd rhan yn y celfyddydau a diwylliant (gweler yr atodiad).

Credwn bod y cyfleoedd yma yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd, addysg a lles y cyfranogwyr. Yn ogystal mae'r gweithgareddau, y cyrsiau a'r cyfleoedd a gynigir yn datblygu eu sgiliau a'u hunan hyder ac yn creu'r ymdeimlad o berthyn.

Yn ddiweddar mae Cyngor Sir Ceredigion wedi sefydlu Grŵp Celfyddydau a Diwylliant. Mae yna nifer o gwmnïau a sefydliadau yn eistedd ar y Grŵp megis –

**Cered, Theatr Felinfach, Canolfan y Celfyddydau, Theatr Mwldan, Cwmni Theatr Arad Goch, Y Llyfrgell Genedlaethol ag Amgueddfa Ceredigion. Mae cael cynrychiolaeth o'r holl gwmnïau a sefydliadau yma o amgylch y ford yn golygu y gallwn drafod sut y mae modd i ni weithio ar y cyd, gan ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael â thlodi.**

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi Cwmni Theatr Arad Goch, Canolfan y Celfyddydau a Theatr Mwldan yn ariannol trwy drefniant Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gryf o'r farn bod gan bob plentyn a pherson ifanc yn y Sir yr hawl i brofi diwylliant safonol a chyfoes, yn eu cynefin. Rydym yn cydweithio'n agos gydag ystod o gwmnïau a sefydliadau o fewn y Sir er mwyn sicrhau darpariaeth eang ac addas er lles ein plant a'n pobl ifanc.**

3. Pa effaith mae rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru wedi'i chael ar ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael â thlodi?

**Nid yw Ceredigion yn rhan o'r rhaglen 'Cyfuno'.**

4. Pa mor effeithiol mae rhaglenni arloeswyr Cyfuno wedi bod wrth ysgogi cydweithredu lleol?

**Nid yw Ceredigion yn rhan o'r rhaglen 'Cyfuno'.**

## Gweithgaredd Diwylliannol i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yng Ngheredigion

**(Ebrill 2017 – Hydref 2018)**

Mae'r holl weithgareddau isod yn cael eu cynnig yn rhad ac am ddim mewn cymunedau ar draws Ceredigion.

| Adran | Gweithgaredd | Cynulleidfa darged | Lleoliadau | Cost i'r plentyn/person ifanc/oedolyn | Manylion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | Clybiau Ieuenctid - Prosiect 2050 - Graffiti | Plant a phobl ifanc 11-17 oed | Aberteifi, Aberaeron, Penparcau | Am ddim | Prosiect graffiti yn dathlu diwylliant Ceredigion, yn hybu pobl ifanc i gynyddu hyder i siarad Cymraeg ond hefyd i ymgysylltu gyda'r cymuned lleol |
| | Clybiau Ieuenctid - Dathlu Diwylliant | Plant a phobl ifanc 11-18 oed | Aberteifi, Aberaeron, Penparcau | Am ddim | Dathlu hanes a diwylliant Cymraeg yn ystod mis Mawrth. Aelodau yn cwblhau achrediad Diwylliant Cymru trwy Agored Cymru |

| Adran | Gweithgaredd | Cynulleidfa darged | Lleoliadau | Cost i'r plentyn/person ifanc/oedolyn | Manylion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant** | Grwpiau Wythnosol/Grwpiau Gwyliau | Plant a phobl ifanc 8-17 oed | Aberystwyth | Am ddim | Grwp Celfyddyd, Grwp Drama, Grwp Merched a Grwp Sadwrn . Mae'r grwpiau yn targedu pobl ifanc o gefndiroedd dan anfantais er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt flasu diwylliant a chelfyddyd amrywiol. Mae'r unigolion sy'n mynychu yn bobl ifanc na fyddai fel arfer yn cael cyfle i gael mynediad at y meysydd hyn. Mae'r gweithgaredd yn cynnwys: gweithdai cerdd, gweithdai drama, ymweliadau ag amgueddfeydd a safleoedd hanesyddol ynghyd a gweithdai crefft. |
| **Theatr Felinfach** | Tu ôl i'r llenni | Plant a phobl ifanc 11-16oed | Theatr Felinfach | Am ddim | Dau ddiwrnod o weithdai amrywiol i blant a phobl ifanc. Gweithdai sgriptio, drama, dawns, cyfansoddi, technegol & iwcalili. |

| Adran | Gweithgaredd | Cynulleidfa darged | Lleoliadau | Cost i'r plentyn/person ifanc/oedolyn | Manylion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dramatic | Plant a phobl ifanc 7-11 oed | Theatr Felinfach<br>Ysgol Henry Richard Tregaron<br>Ysgol T Llew Jones Brynhoffnant | Am ddim | Cyfle arbennig i blant i fynegi eu hunain yn greadigol trwy gyfrwng drama mewn awyrgylch gymdeithasol anffurfiol. |
| | **Cer i Greu'** | Plant a theuluoedd | Theatr Felinfach | Am ddim | Bore creadigol i'r teulu gan gynnwys gweithdai crefft a sesiynau stori, can a dawns. |
| | Pantomeim blynyddol | Plant Blwyddyn 9 – 13<br>Oedolion | Theatr Felinfach | Am ddim | Cyfle i actio, canu a dawnsio fel aelod o gwmni'r pantomeim. Ymarferion wythnosol yn arwain at berfformiadau cymunedol, cyhoeddus. |
| | Gwyl y Gwanwyn<br>'O Atgof Newydd, mae Atgof Arall yn Deffro' | Plant blwyddyn 5-6<br>Oedolion dros 50 oed | Ysgol Gynradd Llanarth<br>Theatr Felinfach | Am ddim | Gwaith crëadigol ar y cyd rhwng Ysgol Llanarth a chlwb Hwyl a Hamdden Felinfach i greu Bocs Atgofion. |
| | Gweithdy CIC | Plant a phobl ifanc 11-18oed | Theatr Felinfach | Am ddim | Diwrnod blasu agweddau byd y theatr gan gynnwys actio, canu, dawnsio, sgriptio, cefn llwyfan |

| Adran | Gweithgaredd | Cynulleidfa darged | Lleoliadau | Cost i'r plentyn/person ifanc/oedolyn | Manylion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithdy Drama | Plant 5-11oed | Theatr Felinfach | Am ddim i'r plant. (Talwyd am y gweithgaredd gan dîm LAC) | Gweithdy drama i blant mewn gofal (LAC) |
| **Cered – Menter Iaith Ceredigion** | Gweithdai Iwcaleli | Pob oed | Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Canolfannau Teulu, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Clwb Ieuenctid Aberteifi, Parti cymunedol Cletwr, Coleg Ceredigion ac ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y sir | Am ddim | Gweithdai Iwcalili wedi eu cynnal ar draws yr ardal dros y cyfnod gan godi ymwybyddiaeth am gerddoriaeth Gymraeg draddodiadol a chyfoes a rhoi cyfle i ddysgu sgiliau newydd. |
| | Sesiwn Stori | Plant –4 oed a'u rhieni/gofalwyr | Llandysul | Am ddim | Cyfle i blant a'u rhieni/gofalwyr wrando ar stori a chymdeithasu. |
| | Joio Mas Draw | Plant –4 oed a'u rhieni/gofalwyr | Borth<br>Aberteifi | Am ddim | Sesiynau hwyl a sbri gan gynnwys storïau a chaneuon Cymraeg |
| | Sesiynau Jamio | Plant a theuluoedd | Aberteifi | Am ddim | Cyfle i ddysgu sgiliau offerynnol a dysgu mwy am gerddoriaeth Gymraeg gan gynnwys caneuon traddodiadol a chyfoes. |

| Adran | Gweithgaredd | Cynulleidfa darged | Lleoliadau | Cost i'r plentyn/person ifanc/oedolyn | Manylion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyl y Cynhaeaf | Pob oed | Aberteifi | Am ddim | 4 sgwrs agored i'r cyhoedd yn Neuadd y Dref Aberteifi ar bynciau yn ymwneud a diwylliant a hanes lleol |
| | Ti a Fi am Dro | Plant 0-4 oed a'u rhieni/gofalwyr | Tregaron | Am ddim | Sesiwn stori a helfa drysor Gymraeg i blant cyn-ysgol a'u rhieni |
| | Pared Gwyl Dewi | Pob oed | Llambed<br>Aberystwyth | Am ddim | Cyfle i ddathlu diwylliant Cymraeg gyda phared drwy tref Llambed |
| | Cered ar y Prom | Pob oed | Aberystwyth | Am ddim | Diwrnod o weithgareddau Cymraeg i'r teulu yn y Bandstand yn Aberystwyth gan gynnwys sesiwn stori, gweithdy crefft, cerddoriaeth Gymraeg a gweithdy clocsio |
| | Gig Ras yr Iaith | Pob oed | Aberystwyth | Am ddim | Noson o gerddoriaeth Gymraeg yn y Bandstand yn Aberystwyth |

| Adran | Gweithgaredd | Cynulleidfa darged | Lleoliadau | Cost i'r plentyn/person ifanc/oedolyn | Manylion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithdai Carnifal Aberaeron | Pob oed | Aberaeron | Am ddim | Gweithdai amrywiol gan gynnwys gweithdy crefft, gweithdy flogio, gweithdy iwcalilis a cherddoriaeth Gymraeg |
| | Gig y Talbot | Pob oed | Tregaron | Am ddim | Noson o gerddoriaeth gyda Lowri Evans a Lee Mason |
| | Lansiad Clwb Llyfrau | Oedolion | Tregaron | Am ddim | Lansiad Clwb Llyfrau Tregaron gyda sgwrs yng nghwmni'r awdur Ifan Morgan Jones |